

Adolygiad o Ddatganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru

Crynodeb Gweithredol



Collaboration by design

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol

Crynodeb Gweithredol

Y Comisiwn

Comisiynwyd Powell Dobson Urbanists ynghyd ag Ysgol Cynllunio a Daearyddiaeth Prifysgol Caerdydd a Keith Bright Consultants i astudio **effeithiolrwydd Datganiadau Dylunio a Mynediad (Datganiadau) yng Nghymru**. Pwrpas y prosiect hwn oedd casglu ymchwil credadwy a oedd wedi'i seilio ar dystiolaeth er mwyn gweld a yw'r Datganiadau'n llwyddo yn eu nod, sef sicrhau gwell dylunio yng Nghymru.

Ym mrieff yr ymchwil, nodwyd mai'r prif faterion hysbys, neu dybiedig a oedd dan sylw, oedd sut y darperid y datganiadau, eu cymhlethdod a dyblygu gwaith.

Felly, mae'r astudiaeth wedi cwmpasu meysydd ehangach er mwyn cynnal adolygiad gynhwysfawr o ddatganiadau dylunio a mynediad. Edrychwyd ar yr elfennau effeithiol yn ogystal â'r meysydd hynny lle nad ydynt yn gwneud cystal â'r hyn a ddisgwylid ac a ddymunid, a hynny yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar ystyried a ydynt wedi sicrhau gwell dylunio yng Nghymru.

Mae'r Crynodeb Gweithredol hwn yn dilyn strwythur y prif adroddiad. Mae'r rhan gyntaf yn nodi canfyddiadau manwl pob cam o'r ymchwil empirig; yna, trafodir prif ganfyddiadau'r camau hyn, gan gynnig argymhellion wedyn i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd, ac yna'r casgliadau.

Y broses ymchwil

Roedd y broses ymchwil yn cynnwys y canlynol: adolygu'r llenyddiaeth, gweithdy pennu cwmpas y materion dan sylw; holiaduron; ac astudiaethau achos.

Adolygu'r llenyddiaeth, y canllawiau a'r polisïau

Yn yr adolygiad, gwelwyd bod pryderon hanesyddol a pharhaus difrifol am y ffordd mae'r Datganiadau'n gweithio yng Nghymru ac yn Lloegr, a'r ffordd y maent yn cael eu defnyddio a'u heffeithiolrwydd. Mae

polisiâu a chanllawiau yng Nghymru yn dweud bod cynllunio da yn gynllunio cynhwysol, eto i gyd, mae'r adolygiad wedi dangos nad yw ystyriaethau ynghylch mynediad a chydaddoldeb bob tro'n nodwedd gref o ddylunio datblygiad.

Dyma rai o'r materion a nodwyd:

- canllawiau ategol a sut mae'r rhain yn cael eu dehongli a'u cymhwyso ar lefel ymarferol;
- dehongliadau anghyson o'r gofynion gan awdurdodau cynllunio lleol;
- sgiliau ac arbenigedd yn amrywio wrth baratoi a gallu dehongli Datganiadau;
- pryder ynghylch y trothwyon ar gyfer gorfod paratoi Datganiad i gyd-fynd â chais cynllunio.

At hynny, roedd pobl yn poeni hefyd am gynnwys ac ansawdd y Datganiadau Dylunio a Mynediad eu hunain. Un canfyddiad pwysig oedd nad oedd dim tystiolaeth sylweddol bod paratoi Datganiadau Dylunio a Mynediad ynddo'i hun yn ffactor o bwys o ran sicrhau dyluniad da. Ategwyd hyn gan y pwyslais a welwyd mewn llawer o'r llenyddiaeth ar Ddatganiadau Dylunio a Mynediad fel gofyniad gweithdrefnol neu statudol yn hytrach nag fel cyfrwng a oedd yn help i hwyluso amgylchedd adeiledig a oedd wedi'i ddylunio'n dda ac a oedd yn hygyrch ac yn ddiogel.

Canfyddiadau'r holiadur

Drwy'r holiadur, ceisiwyd barn ystod eang o bobl a oedd yn ymwneud â Datganiadau, megis awduron, adolygwyr, defnyddwyr ac aseswyr. Gofynnwyd cwestiynau am: rôl yr unigolyn; eu barn am bwysigrwydd y pum mater yn ymwneud â Datganiad a restrir yn TAN 12; profiad yr

ymatebwyr o baratoi Datganiad; dylanwad y Datganiad; dewisiadau eraill yn lle'r Datganiad; a'r eithriadau posibl.

Drwyddi draw, roedd pobl yn **gefnogol i'r Datganiad fel arf yn y broses gynllunio**. Er hynny, credai llawer o bobl fod Datganiadau mewn gwirionedd yn **achosi oedi**, eu bod yn cael eu trin **mewn ffordd anghyson** gan awdurdodau cynllunio ac y gallent fod yn **ddrud i'w paratoi a hynny'n ddiangen**. Roedd Datganiadau'n cael eu hystyried yn **werthfawr** ar gyfer cynlluniau mwy.

Mae'r ystod o ddatblygiadau y mae gofyn paratoi Datganiad ar eu cyfer yn cael ei hystyried yn ddiangen o eang, a dylid **eithrio datblygiadau llai**.

Yn gyffredinol, roedd cytundeb bod **gofynion y Datganiad yn gorgyffwrdd â Rheoliadau Adeiladu** o ran materion sy'n ymwneud â mynediad. Dadleuwyd nad oedd defnyddio Datganiadau'n golygu bod llai o angen i weithwyr proffesiynol hyfforddedig ymwneud ag asesu rhinweddau dyluniad cynllun datblygu.

Gweithdy

Cynhaliwyd gweithdy ym mis Ebrill 2013. Un elfen o'r broses ymchwil oedd hyn. Yn y gweithdy, cynullwyd cynrychiolwyr o blith y rheini sy'n ymwneud â chomisiynu, ysgrifennu, darllen a defnyddio Datganiadau.

Crynohir y prif bwyntiau a gododd o'r gweithdy isod.

Dyma rai o fanteision y Datganiad a nodwyd yn y gweithdy: Credir bod Datganiadau wedi **llwyddo i roi mwy o bwys ar ddylunio yn y broses gynllunio** (gan gynnwys mynediad a diogelwch cymunedol); maent yn cael eu hystyried yn **help i bobl** ddeall dyluniad; ac maent yn cyfrannu at 'ddiogelu datblygiad at y dyfodol'. Ychydig o drafodaeth a gafwyd, os o gwbl, ynghylch a ddylid cael gwared â hwy'n llwyr. Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio'n bennaf ar **fireinio'r system**.

Y prif faterion a godwyd yn sgil yr uchod oedd: **y trothwy ar gyfer y gofyniad; i ba raddau yr oedd pobl yn deall y gofynion; ansawdd y datganiadau a gorfodi.**

Nid oedd consensws ynghylch i ba raddau yr oedd gorgyffwrdd rhwng rheoliadau adeiladu a'r Datganiad. Roedd rhai a oedd yn bresennol yn credu bod gormod o orgyffwrdd ac eraill yn credu nad oedd digon. Roedd y rhai a oedd yn credu bod gormod yn credu bod rheoliadau adeiladu'n cynnwys rhai elfennau penodol ac felly na ddylid ymdrin â'r rheini mewn Datganiad. Roedd y rhai a oedd yn credu nad oedd digon o orgyffwrdd yn credu pe na roddid sylw priodol i fynediad o'r cychwyn na fyddent yn cael sylw digonol yn y dyluniad yn ddiweddarach yn y broses.

Casglwyd y dylid ystyried yn ofalus y **trothwy** ar gyfer gorfod paratoi Datganiad fel na fyddai unrhyw newid yn arwain at ddylunio gwael. Roedd **awydd amlwg i weld gwell canllawiau**, yn ogystal â **hyfforddiant priodol.**

Astudiaethau achos

Pwrpas yr astudiaethau achos oedd cael gwybod pa ran oedd gan y Datganiad, os o gwbl, yn y gwaith o ddatblygu prosiectau penodol, a beth oedd ei rhan yn y broses honno. Gwnaethpwyd hyn drwy archwilio sut, pryd, ymhle a chan bwy y defnyddid Datganiadau yn y broses ddatblygu ar gyfer pob un o'r prosiectau a ddewiswyd.

Pwrpas archwilio prosiectau o wahanol faint a defnydd, a cheisiadau llawn ac amlinellol oedd archwilio a oedd y gwahaniaethau hyn yn effeithio ar sut y defnyddid y Datganiad a'r rhan yr oedd yn ei chwarae yn y broses ddatblygu, ac os oedd y Datganiad yn chwarae rhan, sut.

Roedd y themâu datblygu yn cynnwys: manwerthu; amaethyddol, diwydiannol cyffredinol; storio a dosbarthu; preswyl (dros 10 uned ac o dan 10 uned); swyddfa yng nghanol tref; defnydd cymysg; seilwaith; tŷ annedd yn lle un a oedd yno'n barod; a datblygiad nad oedd yn creu dim gofod llawr.

Wrth adolygu'r astudiaethau achos, gwelwyd y canlynol:

Fformat dogfennau

Roedd **fformat a chynnwys y dogfennau'n amrywio** rhwng yr achosion i gyd, er bod y cyfeiriad at olwyn ddylunio TAN 12 yn elfen gyson yn yr achosion.

Esblygiad y dyluniad a disgrifiad ohono

Nid oedd cysyniad y dyluniad a'i esblygiad yn cael ei gynnwys mewn ffordd gyson rhwng y dogfennau. Yn aml, fe ddefnyddid y ddogfen i **gyfiawnhau cynnig** yn ei gyd-destun ehangach, yn hytrach nag i gyfleu'r broses ddylunio sy'n gefn iddo mewn gwirionedd.

Roedd llawer o'r rheini y cyfwelwyd â hwy (swyddogion, ymgynghoreion, Cynghorwyr ac ati) yn meddwl bod y ddogfen **yn ddefnyddiol o ran cynnig golwg cyffredinol** o'r cynllun.

Effaith ar y dyluniad

Er bod cyfeiriadau cyson at themâu TAN 12, nid oedd dim tystiolaeth bod gorfod cydymffurfio â'r olwyn ddylunio mewn gwirionedd wedi dylanwadu ar y dyluniad, ond yn hytrach bod hynny wedi darparu agenda ar gyfer cyfiawnhau neu esbonio'r cynllun.

Roedd yr astudiaethau achos yn dangos nad y gofyniad i ddarparu Datganiad mewn gwirionedd, nac ychwaith y Datganiad ei hun, a oedd yn sicrhau dyluniad da, ond mai cyfuniad o **ffactorau, pwysau a gofynion** eraill a oedd yn sicrhau hyn. Roedd ffactorau allanol eraill yn dylanwadu ar hyn megis disgwyliadau'r cleient, profiad y dylunydd, gofynion ariannu, anghenion defnyddwyr a gofynion polisiau cynllunio. Roedd yn bwysig nodi, fodd bynnag, mai dyma'r sefyllfa yn awr, yn hytrach na phan oedd gofyn darparu Datganiadau gyntaf (2006).

Dogfen Fyw

Mewn ambell achos, gwelwyd bod y Datganiad wedi esblygu yn ystod y broses ddatblygu, er na chafodd ei ddefnyddio wedyn ar ôl cwblhau'r adeiladu. Yn aml, roedd i bob golwg yn ddogfen ddigyfnewid, nad oedd yn cael ei defnyddio wedyn ar ôl rhoi'r caniatâd cynllunio.

Cynnwys

Anaml y byddai'r datganiad yn dadansoddi cyfleoedd a chyfyngiadau safle, gan gynnwys cyfeirio at bolisi cynllunio, yn yr achosion er bod yr elfennau hyn yn aml yn cael **eu disgrifio'n ffeithiol** (gan gynnwys ailadrodd polisi cynllunio). Gwelwyd bod materion mynediad gan amlaf yn cael sylw mewn ffordd arwynebol yn unig, ar ffurf datganiadau cyffredinol. Y farn oedd bod Datganiadau'n **ddefnyddiol at ddibenion cyfathrebu cyffredinol** ar gyfer nifer o wahanol gynulleidfaoedd. Serch hynny, anaml y byddai Datganiad **yn dylanwadu ar ansawdd dyluniad**, a gwelwyd bod hynny'n dibynnu mwy ar gyd-destun y dyluniad. At hynny, ychydig yr oedd Datganiadau wedi dylanwadu i bob golwg ar sut yr oedd dylunwyr yn ystyried mynediad.

Crynodeb o'r canfyddiadau

Rhestrir canfyddiadau cyffredinol yr ymchwil isod o dan benawdau: Paratoi'r Datganiad; defnyddio'r Datganiad; a'r canlyniadau dylunio.

Paratoi

Roedd y pethau cyffredinol a oedd yn dylanwadu ar ansawdd cynnwys a defnyddioldeb Datganiad yn y broses ddatblygu yn cynnwys: a oedd angen cyflwyno achos o blaid y datblygiad neu beidio (y mwyaf y byddai angen gwneud hyn, y gorau fyddai ansawdd y datganiad); arbenigedd proffesiynol y tîm datblygu (y mwyaf yr arbenigedd, y gorau fyddai'r ansawdd); profiad yr ymgeisydd; a gofynion yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Canfuwyd yn gyffredinol, os nad oedd yr ymgeisydd / ymgynghorydd yn meddwl bod angen cyfiawnhau'r cynigion datblygu, yna, fel rheol, ni fyddai'r Datganiad ond yn cyflawni gofynion sylfaenol yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Y mwyaf dadleuol y gallai prosiect fod (oherwydd ei faint, ei ddefnydd, lleoliad y safle, defnyddiau cyffiniol, effaith ac ati) y mwyaf o bwys a roddid ar y Datganiad gan yr ymgeisydd, y swyddog cynllunio a'r ymgynghoreion. Mae hyn yn symptom o'r ffaith bod y ddogfen yn cael ei defnyddio'n bwynt gwybodaeth sy'n golygu bod modd dod o hyd i wybodaeth mewn un man, ond mae'r potensial hefyd i ymgeisydd geisio dylanwadu ar benderfynwyr ynghylch rhagoriaethau'r cynllun, drwy gyfrwng y Datganiad Dylunio a Mynediad.

Defnyddio

Gwelwyd nad oedd y ffaith bod gofyn cyfeirio at bum elfen olwyn dylunio TAN12 (a hynny'n aml er mwyn sicrhau bod cais yn cael ei ddilysu) yn briodol ar gyfer pob math o ddatblygiad lle'r oedd gofyn cael Datganiad Dylunio a Mynediad. Nid oedd tystiolaeth bod ystyried yr elfennau hyn a chyflwyno adroddiad yn dadansoddi'r dyluniad yng nghyswllt y rhain, ar ei ben ei hun yn gwella ansawdd y dyluniad, er ei fod yn cynnig strwythur ar gyfer cyfleu'r ymagwedd ddylunio.

Gwelwyd bod gwerth i Ddatganiadau Dylunio a Mynediad (Datganiadau) **fel cyfrwng cyfathrebu** a gyflwynid ochr yn ochr â chynlluniau perthnasol. Gwelwyd bod hyn yn wir ar gyfer swyddogion dylunio, swyddogion cyswllt pensaernïol yr heddlu, rhai rheolwyr datblygu, grwpiau mynediad, aelodau'r cyhoedd ac aelodau pwyllgorau. Adlewyrchir hyn yn yr agwedd gadarnhaol at y Datganiad a welwyd gan y grwpiau hyn yn yr ymchwil. Gall **Datganiad** da **gynnig esboniad neu gyfiawnhad ar gyfer cynllun, gan wneud y cynllun a ddangosir yn y lluniadau'n haws ei ddeall**. Mae hyn yn arbennig o wir am **gynlluniau arwyddocaol sy'n fawr, yn gymhleth a hefyd am gynlluniau llai sydd mewn lleoliadau sensitif**.

Mae'r diffyg ymgysylltu â Rheoliadau Adeiladu o ran gofynion Rhan M o'r Rheoliadau hynny yn ystod y cam cynllunio'n golygu nad yw rhywun o anghenraid yn sylweddoli'r math o sensitifrwydd at fynediad sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb adeg y cam cynllunio. Mae hefyd

yn golygu nad yw hyn ychwaith yn cael ei ddilyn drwodd o'r caniatâd cynllunio nes y rhoddir y prosiect ar waith.

Canlyniadau

Nid oedd dim tystiolaeth bod yr angen i baratoi Datganiad mewn gwirionedd wedi arwain at wella dyluniad unrhyw un o'r datblygiadau a ystyriwyd yn yr astudiaethau achos. Yn gyffredinol, cydnabuwyd bod dyluniadau da'n deillio o setiau o amgylchiadau a oedd yn cydgyfuno mewn gwahanol ffyrdd. **Y mwyaf dadleuol neu gymhleth y gallai'r cynigion fod, y mwyaf o sylw a roddid i'r Datganiad wrth eu paratoi a'u hystyried.**

Gwelwyd mai'r gofyniad i gydymffurfio â pholisïau cynllunio cenedlaethol a lleol ynglŷn â dylunio da, ynghyd â gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd dylunio da (fel y'i disgrifir mewn polisïau) oedd yn arwain at ddylunio da yn hytrach na'r angen mewn gwirionedd i baratoi Datganiad a chynnwys trafodaeth am gyfyngiadau a chyfleoedd dyluniad a'r dadansoddiadau perthnasol.

Gwelwyd mai natur yr ymgeisydd a'r tîm cefnogi, ac i ba raddau y byddent yn dilyn proses cyn-ymgeisio / yn defnyddio arfau cynllunio rhagweithiol, yw'r ffactorau sy'n caniatáu i'r system gynllunio ddylanwadu ar ansawdd y dyluniad a sicrhau safon dderbyniol. Gall Datganiad helpu gyda'r broses hon, ond nid yw'n cyfrannu fawr ddim at sut mae angen rheoleiddio cynllun.

Yn yr un modd, gwelwyd bod y canlyniadau sy'n ymwneud â mynediad wedi digwydd oherwydd pwysau ehangach, gofynion (allanol a gweithredol), ac arferion gweithio sefydledig, yn hytrach nag oherwydd ei bod yn rhaid paratoi Datganiad Dylunio a Mynediad. Gwelwyd mai'r prif sbardun sy'n sicrhau trefniadau mynediad priodol i adeilad oedd bod angen cydymffurfio â rheoliadau adeiladu.

Argymhellion

Dyma'r argymhellion a geir yn yr adroddiad sy'n deillio o ganfyddiadau'r ymchwil, fel y'u nodir yn y penodau blaenorol.

Mae'r argymhellion yn ymwneud â'r canlynol: y gofynion / y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r Datganiad (cynnwys, defnydd a pherthnasedd); canllawiau ac arferion gorau; hyfforddi; a'r broses gynllunio.

1) Dylid diwygio'r gofyniad i baratoi datganiad dylunio a mynediad gan leihau nifer y ceisiadau y mae gofyn paratoi datganiad ar eu cyfer. Lle nad yw'n ofynnol paratoi datganiad, gellir cyflwyno un yn wirfoddol gyda chais. Yn y naill achos a'r llall, prif swyddogaeth y datganiad fydd bod yn gyfrwng cyfathrebu.

Mae'n amlwg o'r gwaith ymchwil bod Datganiadau'n ddefnyddiol fel cyfrwng cyfathrebu, yn enwedig ar gyfer ceisiadau mwy o faint a mwy cymhleth. Serch hynny, gall y gofyniad i baratoi Datganiad ar gyfer ceisiadau bach beri rhwystredigaeth gan wneud y broses ymgeisio'n fwy o faich. Felly, cynigir diwygio'r gofyniad.

2) Sefydlu trothwy priodol ar gyfer y ceisiadau y mae gofyn paratoi Datganiad ar eu cyfer.

Pe derbynnid argymhelliad 1, byddai angen sicrhau bod y gofyniad i baratoi Datganiad yn gymesur â'r cynnig datblygu. Felly, mae'r adroddiad yn awgrymu trothwy ar gyfer gorfod paratoi Datganiad, gan ddweud y câi pobl gyflwyno datganiad yn wirfoddol ar gyfer unrhyw gynigion nad oeddent yn croesi'r trothwy hwn, a chan ychwanegu y byddai hynny'n cael ei argymell.

3) Eithrio o'r Gorchymyn agweddau penodol ar ddatblygiad y mae'n *rhaid* eu hystyried yng nghyswllt dylunio (h.y. cynaliadwyedd amgylcheddol, mynediad, symudiad, diogelwch cymunedol a chymeriad.)

Dylid symleiddio'r is-ddeddfwriaeth i gadw'r gofyniad i esbonio sut mae cysyniadau ac egwyddorion dylunio wedi'u rhoi ar waith a sut y rhoddwyd sylw i ystyriaethau mynediad, ond dylid cyfeirio at y categorïau y dylid rhoi sylw iddynt yn y Datganiad mewn cyngor technegol yn hytrach nag mewn is-ddeddfwriaeth. Byddai hyn yn help i bobl ddeall gofyniad, cynnwys a manteision Datganiad yn well.

4) Diwygio a chyfuno'r canllawiau ynglŷn â Datganiadau Dylunio a Mynediad yn un ddogfen a/neu'n gyfleuster ar y we.

Ni waeth a gaiff y gofynion ar gyfer Datganiadau eu diwygio fel y nodir yn yr argymhellion uchod neu beidio, awgrymir y dylid symleiddio'r canllawiau ynglŷn â Datganiadau er mwyn darparu un pwynt cyfeirio canolog sy'n cynnig gwybodaeth a chanllawiau ynglŷn â datganiadau dylunio a mynediad.

5) Lledaenu rhaglen hyfforddi a meithrin gallu drwy'r cyrff perthnasol gan gynnwys cynadleddau, seminarau a chyhoeddi erthyglau.

Byddai rhaglen hyfforddi'n cynnwys diweddarau'r gofynion diwygiedig ar gyfer Datganiadau a'r newidiadau eraill sy'n gefn i hyn er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n eu hysgrifennu ac yn eu derbyn yn deall yn glir beth yw'r newidiadau a gynigir. Dylid ail-bwysleisio'r dyheadau ar gyfer dylunio o ansawdd da yng Nghymru drwy'r broses hon.

6) Integreiddio Rheoli Adeiladu yn ffynhonnell gyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â mynediad yn ystod cam y cais cynllunio ar gyfer pob adeilad ar wahân i anheddau.

Dylid atgyfnerthu'r berthynas rhwng Rheoli Datblygu a Rheoli Adeiladu ar gyfer materion sy'n ymwneud â mynediad. Dylid adolygu hyn er mwyn gweld sut y gellid cynnwys cynrychiolydd Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol neu Arolygydd Cymeradwy yn ystod cam y cais cynllunio. Gallai'r cynrychiolydd hwn gynghori ynghylch materion mynediad a fyddai'n effeithio ar ddyluniad cynnig, a hynny mewn ffordd debyg i sut y bydd swyddogion cyswllt pensaernïol yr heddlu yn cynnig cyngor.

7) Ehangu Rhan M Rheoliadau Adeiladu i gynnwys pob ardal allanol sydd o fewn ffin y datblygiad.

A chofio na fydd gofyn cael Datganiad ar gyfer rhai ceisiadau bellach (gweler Argymhelliad 1), er mwyn helpu i sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i gydraddoldeb mynediad ym mhob ardal allanol, argymhellir y dylid ehangu cwmpas Rhan M.

8) Parhau i hyrwyddo cyfarfodydd cyn-ymgeisio effeithiol er mwyn helpu i sicrhau gwell dylunio ac i ystyried materion sy'n ymwneud â mynediad.

Er mwyn cefnogi'r newidiadau i'r gofyniad i baratoi Datganiadau, dylid ail-bwysleisio pwysigrwydd cyfarfodydd cyn-ymgeisio drwy gyhoeddi deunyddiau a thrwy ddarparu adnoddau ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol.

9) Cadw a datblygu mecanweithiau eraill i wella ansawdd dylunio.

Mae angen archwilio mecanweithiau eraill i hyrwyddo dylunio da, ar wahân i Ddatganiadau. Dylai hyn gynnwys arfau dylunio ymyrryd rhagweithiol.

10) Annog defnyddio amodau cynllunio i sicrhau, lle bo hynny'n berthnasol, fod prif elfennau'r Datganiadau'n cael eu gwireddu

Sicrhau bod cynigion sy'n cael eu disgrifio yn y Datganiad yn cael eu datblygu'n briodol ac mewn ffordd sy'n gymesur â'r datblygiad a gaiff ei adeiladu.

Casgliadau

Paratowyd yr argymhellion gan ystyried canfyddiadau'r ymchwil empirig (llynyddiaeth, gweithdy, holiaduron ac astudiaethau achos) a chodwyd materion y dylid rhoi sylw iddynt. Canfyddiadau cyffredinol y gwaith oedd bod Datganiadau'n cael eu hystyried yn arf cyfathrebu pwysig a defnyddiol yn y broses cynllunio, er nad ydynt, ynddynt eu hunain, yn sicrhau dylunio da.

Felly, mae'r adroddiad yn argymhell cyfres o newidiadau a gwelliannau i'r system bresennol gan gadw manteision y Datganiadau pan fyddant yn briodol ac yn fuddiol, a chan leihau baich presennol eu paratoi lle/pan na fyddant.

Mae'r rhain yn cynnwys newid y gofynion ar gyfer Datganiadau gan leihau nifer y ceisiadau y bydd gofyn paratoi Datganiadau ar eu cyfer, ac felly byddant yn help i fynd i'r afael â rhai o'r agweddau negyddol at

y broses bresennol. Bydd gwell **canllawiau a hyfforddiant newydd ar gael** i gynorthwyo pobl gyda'r newid yn y gofynion ar gyfer Datganiadau. Bydd ystyriaethau ynghylch mynediad yn dal yn elfen hollbwysig o ddylunio da ac fe lynir at y rhain drwy gynnwys **Rheoli Adeiladu** yn gynharach yn y broses ynghyd â thrwy'r newidiadau a gynigir i'r **Rheoliadau Adeiladu**. Bydd angen mynd i'r afael hefyd â gwendid presennol y Datganiadau o ran gwella dylunio.

